"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD:

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1889. [RHIF 19.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Pregeth	145
Y Calaniadur Cymreig	148
Englynion i'r Haf	149
Savonarola	150
Cymdeithas Rhyddhad Crefydd oddiwrth y Wladwriaeth	156
"Yn cael ei adnabod wrth ei het"	159
Y Puritaniaid	161
Y Cadnaw	162
Nodiadau Gwleidyddol	163
Beth a fyddwn?	164
At ein Hysgolion Sul yn Sir Aberteifi	166
Manion a Hanesion	167
Marwgofion	168

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau:—Mrs. H., Gilfachgoch; M.M., Aberdar; D.T., Treorci; J.J., Llandeilo; D.E., Troedyrhiw; G.J.D., Llanbedr; D.W.D., Gellionen.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,
CEFNCOED,
Nr. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

THE GRAMMAR SCHOOL, LLANYBYTHER.

HEAD MASTER:—REV. D. EVANS

For further particulars, apply to Rev. D. Evans, Llanwnen, Llanybyther, R.S.O.

GWEITHIAU CHANNING.

GELLIR cael yr argraffiad rhad o'r uchod, yn rhad trwy y *post*, am 9c. yr un oddiwrth D. J. JONES

Mount Pleasant Garden, Aberdare.

TRYSORFA ADDYSG Y DYNION IEUAINC.

Pob Tanysgrifiadau i'w hanfon i Rev. R. C. Jones, Lampeter

St. Clears ... ... £0 10s. 4c.

LLAWLYFR YR UNDODWR, Pris 6ch.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

Y CALANIADUR CYMREIG.

Os dygwydd i rai o'n derbynwyr weled fod enwau wedi eu gadael allan, carem glywed oddiwrthynt er gosod y cyfryw yn ein rhifyn nesaf.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1889. [RHIF 19.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

PREGETH

GAN Y PARCH. W. THOMAS, M.A. (GWILYM MARLES).

"Gobeithiwch ynddo Ef bob amser; O bobl, tywelltwch eich calon ger ei fron Ef: Duw sydd noddfa i ni."—*Salm lxii.* 5—8.

NID yw yn rhyfedd, pan ystyriom, fod oes ar ol oes wedi cytuno i droi i'r Beibl am addysg a chysur. Yr ydym yn cyfarfod ynddo â'r fath ddoethineb dwfn a'r fath brofiadau goludog. Mae yn cynnwys cymmaint ag sydd yn codi uwchlaw i brofiad cyffredin ein bywyd beunyddiol ni yn yr amseroedd helyntus, masnachol, a bydol hyn. Nid fod dim yn annghyssegredig ac annghrefyddol mewn na masnach na chelfyddyd; diau pe buasai saint y Beibl yn byw yn awr, y buasent yn cymmeryd rhan weithgar yn nhrafodaethau masnachol ac anturiaethau celfyddydol y byd. Ond rywfodd, yr oeddynt hwy yn byw yn nes at galon ac ystyr pob peth gweledig; yr oedd mwy o'r tawelwch a'r dystawrwydd hwnw ag sydd raid wrtho er clywed y llais dystaw main yn yr enaid, yn gystal ag er gwrando a gwerthfawrogi y salm felus o fawl ag y mae nefoedd a daear yn uno ynddi, yn perthyn i'w hoesau hwy. Yr oedd llif ysprydoliaeth fel yn taro i fyny yn gryfach yr amseroedd hyny; nid ein bod etto wedi sychu, nid fod ysprydoliaeth wedi ymadael o blith dynion, ac yn fater o hanes yn unig; nid nad oes llawer etto, trwy ddrachtio o'r un ffynnonell â'r tadau, yn cael eu hadfywio au cryfhau ar y ffordd, a'u cymhwyso i fod yn gyfryngau i leshau ereill. Ac nid ydym heb sail dda i ddysgwyl pethau mwy nag a welwn o'n hamgylch yn awr mewn amser i ddyfod. Ond mae y meddwl yn caru troi yn ol at oesoedd boreuach, a'r galon yn oedi'n hoffus yn

nghwmni salmydd a phroffwyd ac apostol. Mae gwyr a gwragedd, meibion a merched yr oes hon yn cael mai da yw iddynt ddarllen a thrysori y gwersi a geir yn y Beibl—eu bod yn cael nerth yma ar gyfer eu gwaith, cysur yn eu trallod, a chymhorth i godi i diroedd uwch a mwy digwmmwl nag a gyrhaeddent heb y llyfr rhyfedd hwn. Yr hyn sy'n uwch nâ dyn sy'n ei gynnorthwyo, yn creu awydd, yn rhoi calondid iddo. Mae iaith profiad uchel a nefolaidd fel dyfroedd oerion i enaid sychedig. Mae yn dwyn allan i fwy o amlygrwydd deimladau y teimlid eu bod mewn mesur gwan yn y fynwes o'r blaen. Mae eu gweled yn cael eu siarad allan yn rhoi annogaeth i'w meithrin, oblegyd nid oes dim yn rhoi mwy o wir fwynhad i ddyn, ac yn effeithio mwy o les iddo nâ chael fod medr uwch nâ'r eiddo ei hun yn gallu gosod allan a desgrifio teimladau a meddyliau ag y gwyddai eu bod ynddo ei hun, ond heb y cyfryw allu i'w gweithio allan.

Yn y rhanau barddonol a defosiynol o'r Beibl y teimlir hyn fwyaf dichon. Mae pawb, yn Iuddewon a chenedloedd, Protestaniaid a Phabyddion, yn barod i werthfawrogi yr anadliadau pur, y cyffesiadau edifeiriol a thoddedig, y mawl cynhes i Greawdwr pobpeth, a geir yma. Mae rhai o ehediadau uchaf y meddwl Hebraig i'w cael yn y Salmau. Casgliad yw o gyfansoddiadau defosiynol y genedl. Mae enwau llawer o'r awdwyr yn anhyspys. Mae amser eu cyfansoddiad, lawer o honynt, yn ansicr. Mae rhai o honynt wedi eu hysgrifenu dan amgylchiadau ac mewn yspryd nas gallwn ni yn awr deimlo unrhyw fudd ynddynt. Ond a'u cymmeryd gyda'u gilydd, mae ein gweddïau a'n hymddyddanion defosiynol braidd heb yn wybod i ni yn rhedeg i iaith y Salmau hyn, llawer o'r rhai a ysgrifenwyd gan Dafydd—y Bugail, y Brenin, a'r Bardd. Mae y Salm a gynnwys ein testyn yn odidog iawn. Ni wyddys pwy oedd ei hawdwr: priodola rhai hi i Dafydd, ereill i rywun yn byw yn amser y Maccabeaid. Ond ni waeth gymmaint pwy oedd: mae y Salm yn cynnwys iaith a ddaw adref i bob calon bur a meddwl rhinweddol. Mae yr olwg uchel ar Dduw, yr ymddiriedaeth hollol ynddo a amlygir ynddi, yn ein rhwymo i'w derbyn fel caffaeliad ysprydol gwerthfawr. Mae hi yn siarad iaith gyffredinol na pherthyn i oes na gwlad na chenedl yn y byd. Yr ydym yn teimlo wrth ei darllen mai enaid mewn agos gymdeithas â'r Yspryd Anfeidrol sy'n ymdywallt allan yma: "O fy enaid, dysgwyl wrth Dduw yn unig, canys ynddo Ef y mae fy ngobaith. Efe yw fy nghraig a'm hiachawdwriaeth; Efe yw fy amddiffynfa: ni'm hysgogir. Yn Nuw y mae fy iachawdwriaeth a'm gogoniant; craig fy nghadernid a'm noddfa sydd yn Nuw. Gobeithiwch ynddo Ef bob amser; O bobl, tywelltwch eich calon ger eifron Ef: Duw sydd noddfa i ni."

Mae hon yn iaith uchel iawn. Ni roddwyd i bawb feddu yr olwg glir, y teimlad cynhes, a'r ffydd gadarn, o'r rhai y cwyd y fath iaith â hon. Mae'r Salmydd yma ar dir mor agos at Dduw, yn sefyllymmaint yn mhresenoldeb ei berffeithderau, nes yw gofalon presenol wedi eu hannghofio am y pryd, ofnau wedi diflanu, holl dymhestloedd y fynwes wedi tawelu. Cawn ef yn gyffelyb mewn man arall yn dweyd: Dy drugaredd (dy ddaioni) sydd hyd y nefoedd, a'th wirionedd (ffydd-

londeb) hyd y cymmylau. (Mae'r perffeithderau hyn yn oruchel ac annirnadwy o ragorol). Fel mynyddoedd cedyrn y mae dy gyfiawnder (yn annghyfnewidiol a thragwyddol); dyfnder mawr yw dy farnedigaethau" (mae cynlluniau a goruchwyliaethau dy lywodraeth foesol fel y môroedd dyfnion, yn anolreiniadwy i ddyn).

Gwrthddrych uwchaf myfyrdod dyn yw'r Anfeidrol; dyma'r testyn dyfnaf, llettaf, anhawddaf i ddyn ei chwilio i berffeithrwydd. Nid oes ganddo ond nesu o bell yn wylaidd ato, ac arfer y galluoedd a roddwyd iddo. Mae syniadau dynolryw am y Bod Mawr wedi amrywio llawer mewn gwahanol oesau ac mewn gwahanol wledydd, ond cydunent oll i edrych i fyny at ryw allu a mawredd, doethineb a daioni, yn gorwedd y tu cefn i bob peth gweledig, ac yn amlygu ei hun drwyddynt. Adnabyddent yn y Bod hwn Greawdwr a Chynnaliwr pob peth; Llywydd yr holl greadigaeth, yr Hwn a wasgarai gyfoeth ei fendithion, ac a gwblhäai ei fwriadau yn mhob man. Mae pob oes wedi synio am Dduw yn ol y meddwl uwchaf oedd yn bossibl ar y pryd; wedi bod yn priodoli iddo Ef y caritor uwchaf ag yr oedd modd iddynt godi mewn myfyrdod ato. Priodolai llawer o'r hen genedloedd i'w duwiau, a gwneir yr un peth yn awr yn rhyw ranau o'r ddaear, yr hyn sydd i ni yn ymddangos yn chwithig ac anmharchus. Ond nid felly yr ymddangosai iddynt hwy,—y meddwl uwchaf oedd ganddynt, gyda pharch ac arswyd duwiol, dodent ef allan yn y darluniad a roddent o'r Bod Goruchaf. Byddwn ni yn awr yn methu a darllen gydag un pleser nac adeiladaeth lawer o'r iaith yn mherthynas iddo a geir hyd y nod yn y llyfr sydd mewn mwyaf o barch ac arfer yn ein plith. Nid ydym ni bellach yn cael ein dysgu i weddio yn erbyn ond dros ein gelynion; ni fyddwn ni mwyach yn offrymu iddo ebyrth o anifeiliaid wedi eu lladd, gan y'n dysgir mai trugaredd a ewyllysia ac nid aberth *felly*, ac fod galwad arnom i roi ein hunain yn ebyrth byw, sanctaidd, a chymmeradwy iddo, yn rhesymol wasanaeth: ni chlywir neb o honom, mi debygwn, yn gweddio gyda'r proffwyd tânllyd gynt: "Tywallt dy lid ar y cenedloedd, y rhai ni'th adnabuant, ac ar y teuluoedd y rhai ni alwasant ar dy enw," ond cynghorir ni fod "ymbiliau, gweddiau, a deisyfiadau, a thalu diolch dros bob dyn, canys hyn sydd dda a chymmeradwy gerbron Duw ein Ceidwad, yr Hwn sydd yn ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig a'u dyfod i wybodaeth y gwirionedd."

Ein dyledswydd, yn ddiau, yw defnyddio a bod yn ffyddlawn i'r goleuni uwchaf sydd genym, a chadarnhau ein hunain yn y syniadau hyny am y Bod Mawr ag y mae dadganiadau mwyaf dyrchafedig a mwyaf pur patriarchiaid, proffwydi, ac apostolion, a saint pob oes a gwlad yn eu cynnwys, ac yn enwedig edrych ar yr Anfeidrol fel y Tad cyffredinol a pherffaith, yr Hwn a bortreadir i ni gan yr Iesu, yr Hwn a'n dysgodd i gyfrif y daioni dynol uwchaf, y rhinweddau dynol mwyaf gloew, yn ddim ond grisiau i'n helpu i esgyn at y Tad perffaith; a gadael i dynerwch a serch y goreu o dadau dynol fod ond arwydd a chysgod gwan o dynerwch a serch yr Hwn y mae holl ddynolryw yn blant iddo.

(I'w barhau.)

Y CALANIADUR CYMREIG.

GORPHENAF.

1, 1772, urddwyd y Parch. Edward Evan, Aberdar. *Ymof.* 1854, t. 58.
2, 1833, John Jones yn agor ei ysgol yn Aberdar.
2, 1884, m. John Jones, Gellifaharen. Oed 48.
3, 1722, m. John Jones, Llwynrhys. Oed 82. Un o'r Annghyd-ffurfwyr boreuaf yn Sir Aberteifi.
3, 1827, m. D.D., Castell Hywel.
5, 1815, y Parch. J. Prior Estlin yn pregethu yn Llangendeyrn.
7, 1801, ganwyd y Parch. John Edward Jones, Bridgend, yn nhref Caerfyrddin.
7, 1839, m. y Parch. Rees Lloyd, Kingswood. Oed 63.
9, 1757, Philip Charles, Coedycymmar, yn pregethu yn Hanover. Testyn, Iago ii. 12.
11, 1844, m. William Harry, Garwdylau. Oed 82. Awdwr *Awen Rhesymol*, 1828; *Nodd Awen*, 1835.
11, 1799, m. Parch. Thomas Twining, Trowbridge. Ganwyd yn Haverfordwest, 1746.
12, 1760, m. y Parch. Philip Pugh. Oed 81. Bedyddiodd 680 o blant.
13, 1879, m. y Parch. D. Griffith, Cheltenham. Oed 52.
14, 1848, m. Elizabeth, gwraig y Parch. Thomas Davies, Tredegar.
14, 1849, m. David Lewis, Hat-Wneuthurwr, Bridgend. Oed 27. Gweler *Ymof.*, 1849, t. 191.
14, 1878, m. William Jenkins (Gwilym Gwenog). Oed 53.
15, 1773, Urddwyd D.D., Castell Hywel, yn y Llwyn.
20, 1848, ail-agorwyd Capel y Nottais.
20, 1802, ganwyd John Jones, Aberdar.
21, 1821, m. Parch. Thomas Morgan, Ll.D., Llyfrgellydd Dr. Williams. Oed 69. Mab Thomas Morgan, Henllan.
21, 1773, m. Howel Harris, sylfaenydd Methodistiaeth yn Nghymru. Ganwyd Ionawr 23, 1714.
24, 1632, ganwyd Philip Henry. Bu farw Mehefin 24, 1696. Tad Mathew Henry, yr Esponiwr.
25, 1805, m. Thomas Dafydd Miles, bardd o Aberdar. Oed 85.
30, 1847, m. y Parch. Evan Lloyd, Nottage. Oed 83.

? 1766, m. Henry Davies, Cymmar. Oed 70. Urddwyd yn Blaengwrach tua 1718.

GWELLIANT GWALL.

Chwefror 7, 1851, y bu farw y Parch. T. B. Evans, Ynysgau.

ENGLYNION I'R HAF.

Mae'r Haf, mwyhäwr hufen,—yn dy-
A dwyma'r ddaearen; [mhor
Dillyn i gyd, a llawn gwên,
Yw'r twyni îr eu tonen.

Mae'r wybren â'i gwên yn gu,—a'r huan
Yn rhywiog dywynu;
Mewn gwisg aur mae'n gwasgaru
Meithrinol wres, er lles llu.

Tirion dês yw teyrn y dydd;—darfu'r
Darfu'r hyll ystormydd; [rhew,
Araf iawn yw'r afonydd,
A chryn wâr yw'r chwarian wŷdd.

Mae'r maesydd, dolydd deiliog,—yn yr
Yn rhyfedd o gnydiog; [Haf,
'E brofa'u gwyrdd, glaswyrdd glog
Allu llaw'r Hollalluog.

Amrywiol lesiol lysiau—yn gannoedd
A gwnant eu penau;
A thros y byd mae'r cnydau
A'u trem o hyd yn trymhau.

Hoff yn awr yw gwawr y gwŷdd;—e'u
A gwasgod ysplenydd; [gwisgir
Y ddraenen gu'n sawru sydd,
A gwyn yw ei gŵn newydd.

Od o lachar a dilychwin—yw'r llethr,
A llathraidd yw'r eithin;
Daeth anwylaidd, Hafaidd hin
I rywiogi yr egin.

Mae awel dawel y Dehau—yn dwyn
Daionus effeithiau;
Llawn yw'r glynoedd, cymoedd cau,
O ryw swynol rosynau.

'E gilia y nos yn glau 'nawr—a'r wawr
Oreura bob maenawr;
Y mân wlith sy'n fendith fawr:
Mae'n iro ein mwyn orawr.

'E glyw y *maes* y gwlaw mân—îr yw'r
Ir yw'r ardd a'r berllan; [yd,
Bri araul i'n bro eirian
Yw'r gelli glyd a'r gwull * glân.

Mae ffrwythau'r dolau'n delaid;—yn y
Mae cain anifeiliaid; [cwm
Ar y fron yn hylon haid,
Rhai dyfyr yw y defaid.

Mân gantorion llon y llwyni—ganant
Ugeiniau o gerddi;
'E dyr eu mwyn 'Do, Re, Mi,'
O'r galon arw guli.

Y gwenyn mân 'hwmianant;'—hyd waen-
A moelydd y mêlant; [ydd
Am 'yfory' myfyriant;
O'r ddôl gu îr ddiliau gânt.

A llonfaeth llanw'i fwthyn—yn yr Haf,
Wna'r hyfedr forgrugyn;
Dysgu rheol fanol fyn,
A diwygio'r diogyn. †

Mae dynol-ryw'n adfywio;—ac anian
Yn gynhes ac effro;
Cafwyd hinon dirion, do,
A dwthwn da i weithio.

I'r maesydd terydd, tirion,—yn fynych
Anfona yr hwsmon
Ei weis grymus, lliwus, llon;
A rhai dawnus yw'r dynion.

Hoff yw'r Haf! aiff rhai o hyd—ar eu
I'r traeth i gael iechyd; [tro
Rhyw adloniant gânt i gyd
Yn y man hwn am enyd.

Llawn o swyn, a mwyn yw y môr;—nid
Yn dewis dygyfor; [yw
Ac ar ei gefn caria gôr ‡
O ryw ugain neu ragor.

Hoffa rhai'r teg wanegau;—ac ereill
Garant y 'ffynnonau;'
Caiff llawer dyn brigwyn, brau,
Rym a nawdd o'r mynyddau.

Onid mwyn ydyw myned—i goryn
Y 'Gaer' || i gael gweled
Glân gyrau'r glyn agored,
A llwyni cu, llawn eu ced?

---

* Blodau.
† Bu yr englyn uchod mewn cystadleuaeth, ac yn fuddugol.
‡ Côr y "cwch bach."
|| Caer Maesmynach, gerllaw yr hon y preswylia yr awdwr.

Ni gawn yn awr gan ein Naf—fer ade g
Hyfrydol i'r eithaf ;
Ond amgenach, hoffach Haf
Sy'n ol i'w weis anwylaf.

Cawn weithian eirian oriau ;— hir yw'r
A llonydd yw'r llynau ; [dydd,
Llon yw'r berth, a llawn yw'r bau
O hyfrydol Haf-radau.

Pob pren, pob cangen, pob cwys—o'n
Enw Duw a gynnwys ; [daear
Efe â'i law fywiol, lwys,
Wna'n brodir yn baradwys.

Gwaith y Duwdod, od ydyw ;—i'w Lyw
Eilia glod yn hyglyw ; [glân
Mae'n hawdd i *minau* heddyw
'Diwnio ' 'i fawl—'*Mae'r byd yn fyw.*'

Mehefin 6, 1889. DEWI HEFIN.

SAVONAROLA.

(*Parhad o'r rhifyn diweddaf*).

Un boreu o Ionawr, yn y flwyddyn 1482, gadawodd Girolamo Savonarola y fonachlog, ac aeth i groesi y gwastadedd y bu efe yn teithio ar hyd-ddo o Ferrara saith mlynedd cyn hyny. Ond yr oedd bywyd mewn llawer modd wedi cyfnewid iddo oddiar yr amser hwnw. Nid oedd ei enw wedi cael ei lwyr aunghofio yn Ferrara, a daeth ei hen gymdeithion i wrando arno yn pregethu, gan gofio am y rhagolygon dysglaer oedd e wedi aberthu er mwyn y bywyd monachaidd hwn. Ychydig o allu oedd gan ei bregethau i ysgogi y bobl yr anfonwyd ef atynt fel pregethwr. Yr oedd hyn yn siomedigaeth fawr iddo, ond yr oedd ei ffydd yn sefydlog. Gwyddai fod rhyw waith wedi cael ei dori allan ar ei gyfer, a gwrandawai bob amser ar lais Duw yn ei enaid e. Er hyny, yr oedd dylanwad ei gymmeriad a'i weithredoedd yn fawr. Daeth pobl dlodion Ferrara i'w garu, a gwrandawent ar swn ei draed fel y rhodiai drwy'r heolydd ; dim ond yn y pwlpud yr oedd ei eiriau yn methu cael effaith.

Cyn pen nemawr o fisoedd, yr oedd Ferrara deg wedi cael ei hyrddio i ryfel. Yr oedd y Duc o Venice wedi bod am hir amser yn taflu golwg drachwantus ar y gwastadeddau eang a orweddent o gylch Ferrara, a hiraethai am ledaenu terfynau ei diriogaeth yn y cyfeiriad hwnw. Yr oedd y Pab yn erbyn Ferrara, a chyn hir yr oedd holl nerthoedd Itali wedi ymrestru y naill ochr neu y llall. Parhaodd y rhyfel hwn ddwy flynedd. *Ennillwyd* dim drwyddi, ond *collwyd* llu o fywydau gwerthfawr. Yr oedd y bobl yn dyoddef am ymrysonau eu harglwyddi. Ar yr arwydd cyntaf o ryfel, gorchymynwyd i'r holl fonachod adael Ferrara, a gorfu i Girolamo ufuddhau i'r wys.

Yn cael ei wahanu gan fynyddoedd uchel oddiwrth y gwastadedd yr oedd Ferrara a Bologna wedi cael eu hadeiladu arno, y gorwedda dyffryn yr afon Arno, yr hwn oedd mor gyfoethog ac mor brydferth, fel y gelwid ef yn "Ardd yr Eidal." Ar lan yr afon Arno y safai dinas Florence, a dyma lle yr anfonwyd Fra Girolamo pan dorodd y rhyfel allan yn erbyn Ferrara. Lorenzo oedd yn llywodraethu Florence, ac yr oedd yn enwog am ei wleddoedd gwychion, ac hefyd am ei

gefnogaeth o lenyddiaeth. Yr oedd cynnifer o ddynion dysgedig yn ymgrynhoi o amgylch iddo, fel yr oedd Florence weithiau yn cael ei galw yn "Ysgol Itali;" ac yr oedd Lorenzo a'i gyfeillion doeth i gyd yn cyduno â'u gilydd mewn un dymuniad a gwaith mawr. Yr oedd cariad a pharch tuag at feddyliau ac arferion Groeg henafol wedi codi i fyny yn eu plith. Sefydlwyd *academy* yn Florence, lle y gallai dynion astudio ysgrifeniadau Plato, yr athronydd Groegaidd. Yr oedd yn Hydref pan y croesiodd Fra Girolanio yr Apennines, ar ei ffordd i Florence, ac yr oedd y dail crispedig yn syrthio oddiar y coedydd ar lethrau'r mynydd, pan y daeth i olwg y dyffryn gyntaf. Yno'r oedd yr Arno yn dysgleirio fel edefyn arian, yn ymdroellu tua'r môr. Yr oedd y bryniau o'i flaen e yn goch, ac fel yr aur mewn lliw; a phan y daeth efe o'r diwedd yn agos i Florence, yr oedd cerddoriaeth hyfryd clychau yr hen dyrau, fel y deuai ato yn nghôl yr awel, yn debyg i wahoddfad i gartref newydd.

Ni welodd efe ddinas mor brydferth erioed. Yr oedd golygfeydd newyddion yn ei gyfarfod e yn mhob cyfeiriad, hyd nes y daeth i Fonachlog St. Marc, cartref y monachod Dominicanaidd yn Florence. Yr oedd gweledigaethau ac adgofion sanctaidd yn ei roesawu e pan aeth i fewn i'r adeilad. Ond yr oedd y bobl yn ymroddi i esmwythyd—yn caru "byd da yn helaethwych beunydd," ac yn fuan, cafodd Savonarola allan beth oedd manau gweinion Lorenzo a phobl Florence. Yr oedd dyledswydd ac egwyddor yn cael eu hannghofio yn eu syched am ddysg neu loddest. Yn awr, yr oedd gan Lorenzo bregethwr dewisol yn Florence, a'i enw Mariano. Yr oedd yn areithiwr campus, yn arfer iaith ystwyth, ddengar, yn pregethu pregethau nad oeddent yn peru tramgwydd i neb, ac yn swnio yn felus ar glustiau yr ysgolheigion Groegaidd oedd yn gwneyd i fyny gyfeillion Lorenzo. Adeiladodd Lorenzo gapel iddo, a daethai tyrfa anferthol bob dydd i wrando arno'n pregethu. 'Doedd gan Girolanio ddim cymmaint o ddylanwad dros y bobl. Yr oedd ei wrandawyr yn llai bob dydd, ac ysgrifenai at ei fam, gan ddweyd, "Alla' I ddim ysgogi cymmaint a chyw giar."

Yr oedd hon yn siomedigaeth lem iddo. Hiraethai am ysgwyd y byd trwy ei hyawdledd, ac ni wnai neb wrando arno. Yr oedd o ddifrif, a ph'am na allai efe lwyddo fel rhywrai ereill? Yr oedd Antonino wedi bendithio Florence â'i weithredoedd da—Fra Angelico wedi gwneyd y byd yn gyfoethocach trwy ei gelfyddyd; ond beth allai *efe* wneyd? Yr oedd wedi gofyn y cwestiwn hwn yn aml iddo'i hunan, ond yr oedd o hyd yn gadarn yn ei ffydd, ac yn gwrando ar fewnol lais ei enaid oedd yn siarad wrtho yn ngwahanol adegau ei fywyd.

Ar yr amser hwn, dywedid rhyw hanesion dyeithr am Fra Girolanio. Dywedai monachod Sant Marc yn mhlith eu gilydd ei fod yn cael gweledigaethau hynod, a'i fod weithiau mewn llewyg ar ol bod yn gweddio. Ymddangosai iddynt hwy yn fyr o synwyr cyffredin. 'Doeddent *hwy* ddim yn cael gweledigaethau. Yr unig angelion oeddent *hwy* yn gweled oedd y rhai a baentid gan Angelico ar y muriau, ac

yn anfynych yr edrychent at y rhai hyny. Yr oeddent yn barod i chwerthin am ben y monach a'i weledigaethau, ac yn meddwl y cai efe ragor o wrandawyr wrth bregethu, pe b'ai iddo, fel hwy, gadw yn nes at y gwirionedd. Ond yr oedd rhywfaint o wirionedd yn yr hanesion hynod hyn. Fe gredai Girolanio fod gweledigaethau o angelion yn ymweled ag e yn ei gell feudwyaidd. Credai weithiau ei fod yn clywed trwst eu hadenydd, a swn eu geiriau pan y llefarent. Ond ai nid oedd efe yn agosach i'r gwirionedd na llawer o'r dynion pendew nad oeddent byth yn dyrchafu eu meddyliau uwchlaw y ddaear, nac yn breuddwydio am un genad oddiwrth Dduw at eu heneidiau? Os oedd dychymyg weithiau yn ei gario tuhwnt i sylwedd, yr oedd yn iawn ar y cyfan, oblegyd mae pob sibrwd am ddyledswydd ac ymddiried mewn gwirionedd yn genad oddiwrth Dduw.

Daeth yr amser iddo gael ei wrando, ac ymdyrai y bobl o bob cwr i glywed y ffrwd o arabedd yn yr hon y galwai Savonarola ar Florence ac ar yr holl Eidal i edifarhau, ac y proffwydai am farn fuan ar yr eglwys. Credai fod Duw wedi ei anfon e fel pregethwr, ac mai geiriau Duw oedd e'n lefaru; felly, yr oedd ei ffydd yn gadarn, ac ni feddyliai am ddim ond y genadwri oedd o'i flaen e. Dynoethai yn y iaith fwyaf finiog ymddygiadau gwarthus Lorenzo a bonedd y wlad, a phan etholwyd ef i swydd uchel yn y fonachlog, ceisiwyd ganddo dalu gwarogaeth i Lorenzo, fel yr oedd ei flaenoriaid yn y swydd wedi arfer gwneyd. Ond 'doedd hi o un pwys i Savonarola beth oedd dynion ereill wedi wneyd, a phan ofynodd i'r monachod p'un ai Duw neu Lorenzo oedd wedi rhoddi iddo ei swydd, edrychasant mewn cywilydd tua'r ddaear, ac ni atebasant ddim. Gweithiodd Savonarola yn egniol er mwyn ennill yn ol y rhyddid ag oedd pobl Florence wedi cael eu hamddifadu o hono gan y creulawn Lorenzo; ond methodd yn ei amcan. Bu farw Lorenzo yn mis Ebrill, 1492, ac yr oedd ei fab Piero yn llywodraethu Florence yn ei le. Mae amseroedd terfysglyd yn ymdori dros y wlad, rhyfel gyda'i holl dlodi a'i drais yn difrodi y pentrefi bychain; ond mae dylanwad anferthol Savonarola yn cyrhaedd yn mhell ac yn agos. Prif pwnc y dydd oedd ei bregethau yn y *cathedral*. 'Doedd hyd y nod y plant ddim yn cael eu hanhngofio. Yr oedd yn eu cymhell at eu gilydd i ysgolion, ac yr oedd yn ysgrifenu emynau iddynt i'w canu ar donau oeddent yn anwyl gan y bobl. Cyn hir, yr oedd yr hen heolydd yn adseinio gan ganiadau newyddion yn lle caneuon drygionus Lorenzo. Yr oedd y plant yn aml yn ei ddylyn er mwyn cael un edrychiad neu air o'i enau, ac ymddygai bob amser yn dyner tuag atynt. Pregethai yn y Town Hall, ac yn y *cathedral*, ac mae'n hynod dweyd i bobl Florence ddysgu cyfres newydd o gyfreithiau yn mhregethau Savonarola. Trwy ei gynghor ef, cafodd trethi annghyfiawn eu hysgubo ymaith, ffurf newydd o lywodraeth ei sefydlu, yr hyn a roddodd fwy o ddylanwad i'r bobl nag oedd ganddynt cyn hyny. Yr oedd un cyfnewidiad daionus yn dylyn y llall heb dywallt gwaed nac ymryson. Uwchlaw pob peth, ceisiodd Girolania ddysgu iddynt i garu Duw, a cheisio ei ewyllys Ef bob amser; i

garu heddwch a'i gadw e; i faddeu i hen elynion, ac annghofio hen gwerylon. Yr oedd y cyfan hyn yn waith *un* dyn.

Ond bob yn dipyn, yr oedd dylanwad Savonarola yn lleihau yn Florence, er nad oedd efe yn lleihau yn ei sel a'i weithgarwch. Yr oedd corff o elynion wedi codi i fyny yn ei erbyn e, ac wedi penderfynu gosod taw arno, a'i ladd, os gallent. Ond yn mlaen yr elai Savonarola, er gwaetha' pob peth. Ac un diwrnod, mae yn ceisio gan y plant i gynnull yr holl ysgarthion pydredig a'r holl bethau diwerth yn y lle, a'u llosgi yn bentwr ar eu gilydd. Ac fel mae cysgodau'r hwyr yn ymdaenu dros Florence, y mae gwaith y plant yn cael ei gwblhau. Erbyn hyn, yr oedd yr holl wageddau wedi eu pentyru ar eu gilydd mewn man agored yn nghanol y ddinas, ac yno y cawsant eu llosgi. Mae yn bossibl i bethau fyn'd yn mhellach nag oedd Fra Girolamo wedi eu bwriadu iddynt. Efallai ei fod wedi cael ei gario ymaith gan gyffro'r adeg. Ond yr oedd ganddo 'nawr, fel bob amser arall, amcan mawr o'i flaen. Yr oedd am dywys dynion i ofalu yn unig am yr hyn oedd yn wir ac yn brydferth. Ac os yw ei ffyrdd yn ymddangos yn *odd* i ni, dylem gofio yspryd yr oes yr oedd efe yn byw ynddi, yr hon oedd mor wahanol i'r eiddom ni, a dylem ddysgu gweled tu cefn i'w holl weithredoedd a'i eiriau yr yspryd godidog oedd bob amser yn llywodraethu ei fywyd.

Yr oedd Piero Di Medici wedi cael ei yru yn alltud i Rufain, ond yr oedd 'nawr yn dechreu troi ei feddyliau tua Florence. Daethai llythyron ato oddiwrth ei gyfeillion yn ei annog i geisio adennill y gallu oedd e wedi golli dros y ddinas. Yr oedd un o'i gyfeillion, o'r enw Bernardo del Nero, newydd gael ei ethol ar y cynghor, ac yr oedd Piero yn credu, os cyhoeddai efe ryfel yn erbyn Florence, y cawsai porth y ddinas ei agor i'w dderbyn e'. Felly, ni chollodd amser i grynhoi ei fyddinoedd at eu gilydd. Pan oedd ei fyddin fechan yn barod, ymdeithiodd yn frysiog, nes yr oedd ychydig filldiroedd o Florence. Wedi blino gan y daith, arosodd mewn rhyw bentref gwledig, a gosododd wylwyr i stopio pob dyn a fyddai â'i wyneb tua Florence; ond llwyddodd rhywun i frasgamu dros y caeau i ddweyd y newydd yn y ddinas, ac felly, pan ddaeth Piero a'i fyddin i'r golwg, yr oedd y pyrth wedi cael eu bolltio, a'r magnelau wedi cael eu codi i'w hamddiffyn. Gorfu ar Piero, druan, redeg am ei fywyd. Dyma y tro diweddaf y ceisiodd y teyrn gormesol hwn fyn'd i fewn i'r lle.

Yr oedd gelynion Fra Girolamo yn cynnyddu o fewn y ddinas. Byddai yn rhy faith i ddweyd am yr holl gynllwynion a wnaed bob dydd yn erbyn ei fywyd. Yr oedd digofaint y Pab hefyd wedi ei enyn, pan y clywodd am y bregeth oedd wedi bregethu yn groes i'w orchymyn pendant. Ac yn awr fe ddaeth o Rufain wys lem, yn cyhoeddi fod Fra Girolamo wedi cael ei ysgymmuno neu wedi cael ei dori ymaith oddiwrth gorff yr eglwys. Yr oedd effaith y ddedfryd hon yn druenus yn Florence. 'Allai un dyn ag oedd wedi cael ei ysgymmuno ddim cyflawnu gwaith offeiriad. Gyda bod yr Haf yn dechreu yr oedd y pla wedi ymddangos, drachefn, ac yn awr os oedd rhaid ufuddhau i'r pab, ni allai y cleifion a'r rhai oeddynt ar fin marw ddim edrych am

help a chysur oddiwrth Savonarola. Anfonodd y mynachod a'r prif ddinasyddion ymbiliadau i Rufain yn gweddio am i'r ddedfryd gael ei thynu yn ol, ond y cyfan yn ofer. Am lawer o wythnosau yr oedd y pla wedi bod yn ymgynddeiriogi yn Florence, a dynion yn dianc am eu bywydau i'r wlad o'r heolydd afiach. Yr oedd rhai yn cynghori Girolamo i achub ei fywyd trwy redeg am noddfa i un o'r anneddau prydferth oedd yn cael ei gynnyg at ei wasanaeth e'. Ond nis gallai neb ei berswadio i adael y fonachlog,—safai yn ffyddlon wrth ei waith. Am wyth mlynedd yr oedd wedi treulio ei fywyd a'i nerth dros les a hawddfyd Florence. Yn awr yr oedd y diwedd wedi dyfod, ac ni wnai y bobl anniolchgar wrando mwyach arno.

Yn gynnar yn y flwyddyn 1498 daeth monach Franciscaidd i bregethu i Florence. Gwnaeth gyhuddiadau pwysig yn erbyn Savonarola, gan ei alw yn heretic a phroffwyd gau. Meddylid fod y pregethwr wedi ei anfon yno gan y pab. Un diwrnod, aeth Fra Dominico, cyfaill anwyl Savonarola, i wrando ar y monach ; ac wrth glywed y geiriau cableddus yn cael eu llefaru llwgai mewn digofaint, ac yr oedd yn barod i wneyd unpeth i amddiffyn Savonarola. Yn ddisymwth, agorodd ffordd iddo wneyd hyny.

Yn y bymthegfed ganrif, yr oedd arferion rhyfedd yn cael eu dylyn, —arferion ag mae'r byd erbyn hyn wedi dysgu eu condemnio : y cyfryw oedd y prawf trwy dân, pryd yr oedd y dadleuwyr, er mwyn penderfynu dadl, yn cerdded trwy y fflamiau, a meddylid y cawsai y dyn oedd yn *right* yn ei achos ei achub trwy wyrth. Cynnygiodd y monach Franciscaidd ei fod ef a Girolamo i fyned at y prawf trwy dân. Yr oedd wedi cynnyg hyny ddwywaith o'r blaen, ac yr oedd Girolamo wedi pallu rho'i ateb ; efallai ei fod wedi meddwl y gwnai Girolamo yr un peth y trydydd tro. Ond yr oedd Fra Dominico yn llawn sêl, ac yn barod i weithredu heb un meddwl, ac ar unwaith derbyniodd yr hèr,—gwnai *efe* gerdded trwy y tân, a phrofi diniweidrwydd Savonarola. Felly, penderfynwyd y lle a'r amser ; ond yr oedd llawer o farnau yn cael eu dal ar y pwnc. Gorfoleddai gelynion Savonarola. Dywedent y byddai iddo ef neu ei gyfaill gael ei losgi, ac os gwrthodai sefyll y prawf, y byddai yn sicr o golli ei ddylanwad gyda'r bobl. Gan nad beth wnelai, yr oedd ei ddinystr yn sicr. Yr oedd Girolamo yn drist ei galon. Beiai Dominico am ei fyrbwylldra, a dywedai, "Mae gyda ni ormod o waith i ymgymmeryd â'r ymdrechion truenus hyn. Bydded i ddynion *fyw* yn iawn : wrth wneyd hyny mae prawf o gariad a gwyrth o ffydd."

Fel yr oedd amser y prawf yn agoshau, yr oedd y mynachod a phobl Florence ar uchelfan brwdfrydedd. Yn yr amseroedd ofergoelus hyny, yr oedd llawer o ddynion yn barod i gredu, os oedd gwirionedd i gael ei brofi, na wnai tân ddim llosgi. Y seithfed o Ebrill oedd y dydd a bennodwyd i'r prawf gael ei gynnal, a'r lle a neillduwyd oedd y 'sgwar fawr lle safai yr hen *Town Hall*. Yn gynnar yn y boreu yr oedd dynion yn brysur wrth eu gwaith yn codi y goelcerth anferthol ag oedd y ddau *champion* i gerdded trwyddi. Coed oedd y tânwydd, wedi cael eu cuddio a phowdr ac olew. Yr oedd llwybr cul wedi cael ei adael yn

y canol, i'r ddau fynach gerdded o un pen i'r llall, tra yr esgynai y fflamiau o bob cyfeiriad.

Hyd y nod ar yr unfed awr ar ddeg gwnaeth Girolamo ei oreu i rwystro y treial rhag cymmeryd lle. Ond cyn hanner dydd yr oedd y 'sgwar yn llawn o bobl, ac yr oedd pob un yn awyddus am weled yr olygfa. Ymguddiai y monach Franciscaidd, yr hwn oedd wedi cynnyg y treial, yn y *Town Hall*, yn ofni gwneyd ei ymddangosiad. Danfonai esgus ar ol esgus, a gofynai am ryw gyfnewidiadau o hyd yn y parotoadau. Anfonai Savonarola geisiadau at y cynghor yn gweddio am gael y cyfan drosodd. Torodd storom drom o fellt a tharanau dros y ddinas, a disgynai'r gwlaw ar y dorf oedd yn dysgwyl yn ddiamynedd. Yn flin, yn newynog, ac yn siomedig, grwgnachai'r dynion yn uchel. Peidiodd y gwlaw, a llewyrchai pelydrau'r haul yn ddysglaer drachefn. Yn araf elai'r oriau heibio. O'r diwedd daeth y genad oddiwrth y cynghor i stopio'r prawf, a thorodd y dorf allan mewn tymherau nwydwyllt. Bëid Girolamo am y methiant. Dywedid mai efe oedd wedi ei stopio, ac nid gwaith bach oedd gan y milwyr i'w gadw ef rhag cynddaredd y *mob*, a'i arwain yn ddyogel yn ol i'r fonachlog. O hyn allan gwyddai Girolamo fod ei ddiwedd ar bwys. Ar ddydd Sul y blodau, yr oedd torf anferth o ddynion hanner gwallgof wedi gwthio eu ffordd i fewn ir fonachlog er mwyn cael gafael yn Savonarola, a'i wneyd e'n garcharor. Yr oedd terfysg annesgrifiadwy yn teyrnasu yn mhob man, ond yn nghanol y cyfan yr oedd ef yn dawel a digyffro, yn gweddio am ddyogelwch y fonachlog a'i gyfeillion. Ei eiriau diweddaf oedd ar iddynt gael amynedd, ffydd, a gweddi, a bod yn wrol yn ngwyneb pobpeth a'u cyfarfyddai. Cymmerwyd ef yn garcharor, ac ar y 23ain o Fai, 1498, gosodwyd ef i farwolaeth yn 'sgwar mawr Florence. Llosgwyd ei gorff, a thaflwyd y lludw i'r afon Arno, yr hon a'i cariodd hwynt allan yn mhell i'r môr. Felly, nid oedd gorphwysfa iddo ar y ddaear. Galwai y Pab ef yn *heretic*, ond beiddiai rhai hyd y nod yn awr i gredu ynddo fel dyn gwirioneddol, a meddwl am ei grefydd fel crefydd o weithredoedd da ac o fywyd cariadus.

Ai dyma ddiwedd ei obeithion a'i weddiau, a'r gweledigaethau nas gallai efe byth eu sylweddoli? Pan gyrhaeddodd y newydd am ei farwolaeth Michael Angelo yn Rhufain, taflodd y celfyddydwr ei bwyntil y naill ochr, a daeth yn ol i Florence i weled y llefydd ag oedd ei gyfaill wedi byw ynddynt. Yn mhen blynyddau, daeth rhywfaint o ddoethineb yn ol i bobl Florence. Pan oedd peryglon ac helbulon yn lluosogi oddiamgylch iddynt, yn eu cyfyngder galwent i gof gynghorion doeth Savonarola. Bob blwyddyn am dri chant o flynyddau yr oedd blodau yn cael eu taenu ar y 23ain o Fai ar y man lle bu farw, ac hyd y dydd heddyw yr ydym yn gyfoethocach o herwydd esiampl bur ac anhunanol.

Felly, ni ddarfu i'r boreu y llosgwyd Savonarola weled diwedd ei obeithion a'i amcanion hyd y nod yn y byd hwn: a phwy all ddweyd pa waith gwell oedd yn aros y dyn a fu mor ffyddlon er yn blentyn i bob pelydr egwan o oleuni nefol ag oedd yn dyfod ato trwy gymmylau'r

ddaear. Ar bwys ei fywyd, bydded i ninau ddweyd fel y dywedodd Hamlet :—

"To thine own self be true,
And it shall follow as the night the day,
Thou can'st not then be false to any man."

CYMDEITHAS RHYDDHAD CREFYDD ODDIWRTH Y WLADWRIAETH.*

Nid oedd cyfarfod blynyddol y gymdeithas hon, yr hwn a gynnaliwyd nos Fercher, Mai yr 8fed, yn y Tabernacl, Llundain, mor lluosog ag un y flwyddyn ddiweddaf, ond yr oedd y siaradwyr, y rhai a edrychent o bwlpud Mr. Spurgeon ar y miloedd o wynebau awyddus a chlustiau agored wrandawent arnynt, yn eu cyfiawnhau yn gyflawn yn eu cyfeiriadau at "y gynnulleidfa fawreddog hon." Ni fu y brwdfrydedd erioed o'r blaen yn fwy angerddol, ac ni fu areithiau erioed yn fwy i'r pwynt. "Cawsom yn union yr hyn oeddym yn ei ymofyn," meddai cynnrychiolydd oedranus o'r wlad, yr hwn a glywid yn sylwi wrth adael y cwrdd, "Yr ydym yn ceisio ffeithiau, ac nid hyawdledd gwyntog, a chawsom hwynt."

Y GWAITH CAWRAIDD.

Gwnaeth Mr. Illingworth ei waith yn rhagorol fel cadeirydd. Credai efe nad ymgymmerwyd â gwaith mwy cawraidd erioed gan gorff o ddynion yn y wlad hon nâ'r un a osodwyd o flaen y Gymdeithas Ryddfrydol yn agos i hanner can' mlynedd yn ol. Ni allesid ymgymmeryd â'r fath orchwyl gan ddynion o ffydd fwy syml nac o wrhydri a defosiwn at yr hyn sydd iawn, gwladgarol, a gwir. Gallent synu eu hunain at y cynnydd oedd wedi cael ei wneyd. Yn yr oll o drefedigaethau ei Mawrhydi y Frenines, oddigerth Prydain Fawr ei hunan, y mae yr egwyddor o gydraddoldeb crefyddol wedi cael ei mabwysiadu fel cyfraith. Nid oes llawer o gynnydd wedi cael ei wneyd yn Nhy y Cyffredin efallai, er y tueddir ni i gredu pe buasai holl aelodau y Ty hwnw yn rhydd i bleidleisio yn ol eu hargyhoeddiadau, hyd y nod yn awr, y buasai genym fwyafrif o'n tu. Y mae arweinyddion y Blaid Ryddfrydol wedi cymmeryd i fyny y pwnc yn awr, ac y mae hyny yn brawf fod y pwnc yn ennill tir yn ffafr y cyhoedd. Mr. Childers oedd yr unig berson yn ffrynt y fainc wrthwynebol ag oedd ganddo ef amheuaeth yn ei gylch, ond yr oedd Mr. Childers newydd fod yn Edinburgh, ac wedi cydnabod fod Scotland yn addfed i'r Dadgyssylltiad; bydd yn rhaid i Mr. Childers fabwysiadu yr un safle neu yr un agwedd at y pwnc Seisnig. Y mae yn dyfod yn fater o angenrheidrwydd fod y pwnc i'w benderfynu neu ei derfynu yn fuan. Pe gallent ddim ond rhyddhau yr egni neu y nerth crefyddol mawr hwn, cynnyddent i raddau

* Gwel y *Christian World* am Mai 9, 1889.

annghyfrifadwy y nerthoedd sydd yn tueddu at fudd a lles dynoliaeth yn mhob achos—cymdeithasol, gwleidyddol, a chrefyddol.

YSTORI GYNNYDD.

Cymmerwyd i fyny yr un ystori o gynnydd gan Mr. William Summers, A.S., yr hwn a honodd mai "Cydraddoldeb Crefyddol" yn awr ydyw arwyddair yr holl Blaid Ryddfrydol teilwng o'r enw. Olreiniodd helaethiad cynnydd yn meddyliau Mr. Gladstone a Syr William Harcourt, ac—er gwaethaf cri ail-adroddiadol o anhoffedd oddiwrth rai o'r gwrandawyr—datganodd ei grediniaeth fod Mr. Chamberlain yn awr fel erioed yn amddiffynydd Dadgyssylltiad. Gweithred o eiddo y Senedd yw yr Eglwys, ac ni ellir ei diwygio ond drwy Weithred Seneddol; ond ni fyn ac ni all y Senedd bresenol ei diwygio. Dim ond drwy ysgariad oddiwrth y Wladwriaeth—trwy roddi *Home Rule* a Hunan-lywodraeth—y gall hi ddiwygio ei hunan.

ARAETH YR HWYR

yn ddiau oedd eiddo Mr. Thomas Ellis, yr Aelod ieuanc dros Feirionydd. Yn dechreu yn dawel a gwylaidd, dadblygodd yn fuan i wythïen gyfoethog o wawdiaeth, yr hyn gadwodd y gwrandawyr i grochfloeddio, ac yn gymmysgedig â gwawdiaeth yr oedd y ffeithiau mwyaf niweidiol gyda golwg ar anallu a drygedd yr Eglwys; gweithiodd i fyny y gwrandawyr i'r *pitch* uchaf o frwdfrydedd. Dywedodd eu bod hwy yn Nghymru yn bleidwyr cydraddoldeb crefyddol o ddygiad i fyny oblegyd dyoddefaint ac o hunan-barch. Am yn agos i ddwy ganrif y maent wedi cael eu dwyn i fyny drwy waith democratiaid crefyddol byw. Yn awr, y mae ein hunan-barch mewn gwrthryfel yn erbyn y Sefydliad, gan yr hon yr oedd, iddynt hwy, orphenol gwaradwyddus, presenol diddefnydd, a dyfodol annyddan. Y mae Arglwydd Penrhyn, Arglwydd Powys, a Syr Watkin Wynn—unwaith yn allu mor nerthol a diammodol yn Nghymru ag yw y Czar yn Rwssia—wedi colli eu gafael ar y bobl yn Nghymru drwy daflu eu coelbren gyda'r Sefydliad. Hyd y nod yn y flwyddyn ddu 1886 yr oedd 28 o'r 34 Aelodau Seneddol wedi eu gwystlo i'r Dadgyssylltiad. Ymladdwyd etholiad y Cynghor Sirol yn ddiweddar ar yr un prawf-gwestiwn, ac yn gyffredinol y mae yr Annghydffurfwyr wedi ysgubo y bwrdd, heb adael ond digon o Eglwyswyr i adrodd hanes eu gwae.

Yna aeth yn mlaen i ddarlunio rai o'r ffyrdd yn y rhai y mae y Sefydliad yn peru i'w fodolaeth gael ei sylweddoli yn Nghymru. Yn ei blwyf ei hunan, gwna y bobl eu hadnabyddiaeth â'r person unwaith y flwyddyn—pan yn myned i dalu eu trethi. Yn wir, darfu i un Mr. Davies, swyddog tir, o flaen Dirprwyaeth Richmond, amddiffyn y taliad o'r tâl gan yr amaethwyr drwy ddweyd, "Y mae yn peru iddynt ddyfod i adnabyddiaeth â'r offeiriaid." Cerir allan bob goruchwyliaeth neu fudiad moesol ac addysgiadol yn y plwyf gan Annghydffurfwyr. Y mae pedwar plwyf yn yr un sir wedi talu trethi am bedair canrif at

leindy (*nunnery*) yn Essex, wedi cael eu trosglwyddo gan y teyrn unbenaethol ac o dduwiol goffadwriaeth, Harri VIII., i Ddeon Eglwys Gadeiriol Lichfield. Enwodd lawer o enghreifftiau ereill o'r un fath. Dywedid wrthym y byddai Cymru yn berffaith ddedwydd yn awr pe buasai y trethi yn cael eu talu i'r Llys Sirol yn lle yn uniongyrchol i'r person. Yr oedd efe wedi clywed am amryw ffyrdd i gael allan iachawdwriaeth, ond dim erioed o'r blaen o gael allan iachawdwriaeth yn y Llys Sirol. Bu y pedwar esgob dan feirniadaeth lem. Ymffrostia Esgob Ty Ddewi yn yr enw Jones, ac etto, gyda'r enw gwladgarol hwn, nid yw yn colli un cyfleusdra i watwar yn gyhoeddus genedligrwydd Cymreig a iaith llenyddiaeth Gymreig. Yn Mangor y mae Ysgotyn yn medru siarad Cymraeg a Saesneg, o'r enw Campbell. Y mae Esgob Llandaf yn enedigol o Sir York, ymffrost falch yr hwn yw ei fod wedi gwyrdroi a chadarnhau deg-ar-hugain o Annghydffurfwyr. Yn olaf, y mae genym Esgob Cymreig newydd Llanelwy, yr hwn a ysgrifenodd lythyrau i'r *Times*, ac a siarada yn y Iaith Gymraeg. Y mae yr esgob hwn wedi cyhuddo y wasg gartrefol o'i llanw ag erthyglau wedi eu hysgrifenu â phin wedi ei drochi mewn celwyddau! ac yn addasedig i "gyfnewid y bobl Gymreig fel wedi cael eu gwneyd yn benfarch llu gwladgarwch isel." Y mae yr ymdrech dros Ddadsefydliad yn Nghymru, o herwydd agwedd gyffredinol yr offeiriaid, yn ymdrech dros genedligrwydd ac hunan-barch.

Wedi cael ychydig sylwadau o blaid y llafurwr ar ddiffyg ysgolion rhydd ac anenwadol, cododd i fyny y bydenwog Barchedig C. A. Berry ar ei draed, a siaradodd am

EI FEDYDD DRWY DAN.

Cafodd roesawiad gwresog, a sylwodd mai y cyfarfod hwn oedd ei fedydd drwy dân ar esgynlawr Cymdeithas Rhyddhad Crefydd, er ei fod wedi bod yn amddiffynydd cydraddoldeb crefyddol o'i ieuenctid i fyny. Galwai efe eu sylw at osodiad diweddar seren fawr ddysglaer Annghydffurfiaeth, yr hwn ni allai sefyll ar esgynlawr Cymdeithas Rhyddhad, oblegyd y gallai dynion sefyll yno fuasent, nid yn dadsefydlu yr Eglwys, ond dadsefydlu crefydd! Gwnawd y gosodiad hwn gydag ëondra nodweddiadol, yr hwn oedd yn cael ei wneyd yn fynych fel clawr i guddio diffyg gwreiddioldeb neu annghywirdeb neillduol. . . . Daliai efe eu bod yn un yno â'r un argyhoeddiad, nad oes gan wladwriaeth un berthynas swyddogol gyfreithlawn â chrefydd, ac unwn ni gyda'n gilydd yn yr amcan cyffredin o degwch a rhyddid. Ymddangosai efe fel pleidiwr ac amddiffynydd eglwys rydd a blaenfynedol, o herwydd fod cyssylltiad y Wladwriaeth â'r Eglwys yn tueddu i gamamgyffrediad o grefydd yn meddwl y cyhoedd, ac yn rhwystr pennodol i waith pur ac ysprydol yr Eglwys. Y mae y ffaith fod Annghydffurfwyr wedi ennill llawer o oddefiadau yn ystod yr hanner can' mlynedd diweddaf wedi angerddoli y chwerwder achoswyd gan yr hoced (*prestige*) a adawyd i'r Eglwys drwy ei chyssylltiad â'r Wladwriaeth. Mae yr Eglwys wedi colli rhai o'i rhagorfreintiau cyfreithiol; ond y mae

wedi gwneyd mwy nâ hyny i fyny dros hyn drwy arfer ei dylanwad cymdeithasol dirfawr. Mae llawer o ddynion na allant wahaniaethu rhwng peth a pheth wedi gadael yr Eglwys gyda melldith, a chyda hi y maent wedi melldithio crefydd a Sylfaenydd eu crefydd. Er mwyn crefydd, ac o ganlyniad, er mwyn Crist, iawnderau coronol yr Hwn sydd wedi cael ei niweidio, appeliai at ei wrandawyr i hyrwyddo'r Dadsefydliad. L.

"YN CAEL EI ADNABOD WRTH EI HET."

Lawer o flynyddoedd yn ol, pan oedd Pedr Fawr yn teyrnasu yn Moscow, a St. Petersburg etto heb ei hadeiladu, yr oedd gweithiwr tlawd, mewn cot fratiog o groen dafad, yn tori coedydd mawrion ar lecyn unig ar un o wastadeddau mawrion Canolbarth Rwssia. Yr oedd yn ddiwrnod crasboeth yn yr Haf, a gwnelai ei waith ef yn boeth a blinedig. Ond wrth sylwi ar ei wyneb prudd, gellid gweled fod blinder mawr yn gwasgu'n drymach arno nag hyd y nod ei waith.

Wrth godi ei ben ar foment o seibiant yn ei orchwyl, canfyddai y gweithiwr ddyn ieuanc tal yn dyfod yn araf dros y gwastadedd i gyfarfod ag ef. Gwisgai y dyeithrddyn wisg swyddogol ceidwad y palas, ond yr oedd yr ysnodenau wedi llychwino gymmaint, a'r wisg ei hun mor llwm, fel y gellid tybied fod y swyddog naill ai yn ddyn difater, neu yn ddyn tlawd iawn.

"Edrycha fel pe bai wedi colli ei ffordd," ebai'r gweithiwr, wrth sylwi ar y dyeithrddyn yn petruso ac yn edrych yn amheus o'i ddeutu. "Rhaid i mi wel'd a allaf ei osod ar y llwybr iawn. Mae bob amser yn gysur pan fo un mewn trafferth ei hun i helpu rhywun arall o'i drafferth."

Nid ymddangosai y swyddog ieuanc, fodd bynag, fel dyn ag angen help arno oddiwrth neb. Yr oedd yn hynod dal, yn dalach na neb a welodd y gweithiwr erioed, a dangosai ei frest lydan a'i aelodau hir, cyhyrog, arwyddion o nerth anferthol. Yr oedd edrychiad hytrach drist ar ei wynebpryd, a cherddai yn araf, fel pe buasai yn flinedig neu mewn dwys fyfyrdod; ond yr oedd osgo o allu anymwybodol yn ei gerddediad syth, ac yn nhroad ei ben, fel pe buasai yn feistr ar bob peth y delai i gyffyrddiad ag ef. Ymddangosai trwyddo y cyfryw ddyn y byddai yn well genym ei fod yn gyfaill i ni, ac nid gelyn.

"Helo, frawd," ebai'r dyeithrddyn mewn llais dwfn, cryf, "a wyf fi yn mhell o bentref F——— ? 'Rwy'n credu fy mod, rywfodd, wedi colli'r ffordd."

"Mae eich anrhydedd wedi colli'r ffordd yn wir," meddai'r gweithiwr, gan ysgwyd ei ben. "Mae ffordd fawr i bentref F——— oddiyma. Rhaid i chwi gadw tua'r dwyrain hyd nes deloch at bren mawr yn sefyll wrtho'i hunan, yna trowch tua'r dehau can belled a llyn fechan. Yna rhaid i chwi droi tua—"

"O, 'alla'i byth gofio y cyfan hyn," ebai'r swyddog, gan chwerthin. "Deuwch gyda mi, a dangoswch y ffordd i mi."

"Bydd yn hyfrydwch genyf wneyd hyny, eich anrhydedd," meddai'r gweithiwr, gan betruso tipyn; "ond chwi welwch, os collaf fi fy niwrnod gwaith, mi—"

"Ni chewch golli dim wrth ro'i help i mi, byddwch yn sicr o hyny," ebai'r dyn ieuanc yn ddifrifol. "Pa faint ydych yn ennill y dydd?"

"Saith a dimai."

"Saith a dimai," sibrydai'r gwr dyeithr, gan edrych i lawr mewn tosturi at y dyn tlawd, blinedig, ag oedd fel corach mewn cymhariaeth iddo ef, ac yn gorfod gweithio mor galed am hur mor brin. "Wel, dyma ddeunaw ceiniog i chwi: 'nawr, dewch; ond," ychwanegai, "os ydym yn myn'd heibio eich tŷ, gallwch gario y mawn adref ar yr un pryd."

"Gofyna ddwy siwrne i mi wneyd hyny, eich anrhydedd."

"Dwy! Pa'm? Mae'r pedair basged hyn yn ddigon i gynnwys yr oll."

"Nid oes un dyn yn Rwssia, eich anrhydedd, a all gario y pedair hyn ar y tro pan yn llawn. Mae y ddwy leiaf yn ddigon i mi."

"Dim dyn yn Rwssia, aie?" ebai'r swyddwr ieuanc, yn wawdlyd.

"Ni a'i treiwn hi. Taflwch y pedair basged dros fy ysgwyddau, ac yna llanwch hwynt.

Petrusai y gweithiwr, ond siaradai y dyn ieuanc fel un oedd yn arfer cael ufudd-dod. Tra y plygai efe i dderbyn y basgedi, taflodd y gweithiwr hwynt dros ei ysgwyddau, dwy tu ol a dwy tu blaen, ac yna llanwodd hwynt hyd yr ymyl o fawn. A golygfa brydferth oedd gweled y ffurf dal yn ymgodi yn araf i'w llawn maintioli dan y baich anferthol, ac yn cerdded mor ysgafn fel o braidd y gallasai y gweithiwr synedig ei ddylyn. Rhodfa fer a'i dygodd nhw at y bwthyn truenus oedd yr unig gartref y gallasai'r gweithiwr tlawd ymffrostio ynddo: a thra yr oedd ef yn arllwys allan gynnwysiad y basgedi, yr oedd llygaid miniog y dyeithrddyn yn sylwi ar dlodi gresynus yr holl le. Ychydig eiriau caredig wrth gychwyn allan drachefn a aethant yn union at galon drom-lwythog y gweithiwr, ac adroddodd wrtho holl hanes ei ofid.

Ychydig flynyddoedd cyn hyn, prynasai y gweithiwr, am grogbris, gan gymmydog cyfoethog iddo, ddernyn bychan o dir, yr hwn a drodd allan i fod o werth dim. Fodd bynag, trwy ei fod yn anabl i dalu am dano ar y pryd, aeth i ddyled: a chynnyddai y ddyled fwy fwy o hyd, o herwydd y llog uchel a ofynid am dano, nes yr oedd y gweithiwr druan wedi ei yru i wallgofrwydd bron.

"Nid ymddengys yn deg, wnaiff hi?" ebai, "ond beth allaf wneyd? Mae ef yn gyfoethog, ac yr wyf finau yn dlawd a digyfaill."

"A ydyw yn bossibl i'r cyfryw bethau gael eu gwneyd yn Rwssia?" meddai'r swyddog, mewn llais tebyg i swn twrw. "Mae'n llawn bryd i gael cyfnewidiad."

Wrth siarad, fflachiai ei lygaid mawrion duon gyda'r fath ddigllonedd ofnadwy, nes y ciliai y gweithiwr 'nol mewn arswyd. Ond daeth

y dyn ieuanc i'w le ar unwaith, a gofynodd mor dawel ag erioed,—

"Paham na achwynwch chwi wrth yr Ymherawdwr?"

"Yr Ymherawdwr?" meddai y gweithiwr. "Onid ydyw ef wedi newid yr oll o hen arferion ein gwlad, ac wedi dwyn tramorwyr i weithio drosto yn lle ei bobl ei hun? Beth hidia efe am weithiwr tlawd?"

"Mae'n werth treio, serch hyny," meddai'r dyn ieuanc yn ddifrifol, "oblegyd mae eich helbul yn wir flin. Dewch, dywedaf wrthych beth a wnewch: yr wyf fi yn myn'd i F——— i gwrdd â'r Ymherawdwr a'i swyddogion, y rhai a fyddant yno heddyw, ac mi fynaf fi gyfle i chwi siarad ag ef, oblegyd perthynaf i'r corfflu."

"Y fi i siarad â'r Ymherawdwr?"

"Paham lai? Nid yw ond dyn, fel chwi a minau. Yr wyf wedi siarad ag ef fy hunan, ac nid wyf fymryn gwaeth."

"Ond sut y gallaf ei adnabod yn nghanol ei holl swyddogion?"

"Gwnant i gyd ddyosg eu hetiau, ond fe geidw yr Ymherawdwr ei het am ei ben."

Tua hanner awr yn ddiweddarach, wrth eu bod yn dod i olwg F———, darfu i fintai o farchogwyr trwsiadus eu gwisgoedd gwrdd â nhw, a chan gynted ag y gwelsant y swyddog tal, neidiasant oddiar eu ceffylau, a thynasant eu hetiau.

Trodd gwyneb y gweithiwr can wyned a'r eira, a syllai gydag edrychiad brawychus ar y swyddogion, ac ar ei gydymaith tal, ar wyneb yr hwn y chwareuai gwên ddireidus.

"Wel, frawd," meddai, "a ydych chwi wedi cael allan yr Ymherawdwr etto?"

"Wel," ebai'r gweithiwr, gan syllu â'i lygaid mawrion oeddent yn barod i neidio o'i ben; "rhaid mai chwi neu fi yw ef, oblegyd mae y lleill i gyd wedi tynu eu hetiau."

"Felly yr ymddengys," chwarddai Pedr Fawr. "Wel, gyfaill, fe wel y swyddog hwn fod tegwch yn cael ei wneyd i chwi, ac fod y dyhiryn a'ch twyllodd chwi yn derbyn y gosp a haedda; a gobeithiaf na wnewch byth etto feddwl fod yr Ymherawdwr yn annghofus o drallodion ei bobl."

Y PURITANIAID.

Yr oedd y Puritaniaid yn ddynion, meddyliau y rhai a gynnysgaethid â nodwedd arbenig, o herwydd myfyrdod beunyddiol ar fodau goruchel a buddiannau tragwyddol. Heb ymfoddloni ar gydnabod Rhagluniaeth oruwchlywiol mewn termau cyffredinol, priodolent hwy yn wastad bob dygwyddiad i ewyllys y Bod Mawr, i allu yr Hwn nid oedd dim yn rhy anferth ac i archwiliad yr Hwn nid oedd dim yn rhy fanwl. Yn eu bryd hwy, ei adnabod Ef, ei wasanaethu Ef, a'i fwynhau Ef, oedd prif ddyben bodolaeth. Gwrthodent gyda dirmyg y war-

ogaeth ddefodol a osodid gan sectau ereill yn y lle a berthyn i bur addoliad yr enaid. Yn lle cael cipolwg ar y Duwdod yn awr ac yn y man drwy len gaddugol, dyheuent hwy am lawn syllu ar ei ddysgleirdeb annyoddefol a chyfeillachu ag Ef wyneb-yn-ngwyneb. Oddiyma y tarddodd eu dirmyg tuag at ddosparthiadau daearol. Ymddangosai y gwahaniaeth rhwng y mwyaf a'r distadl o ddynolryw fel yn diflanu pan gymharid ef â'r eangder diderfyn a wahanai yr holl hiliogaeth oddiwrtho Ef, ar yr hwn yr oedd eu llygaid hwy bob amser yn sefydlog. Ni chydnabyddent un hawl i oruchafiaeth ond ei ffafr Ef; ac mewn llwyr hyder y meddiannent hwy y ffafr hono, dirmygent holl ddoniau a holl urddas y byd.

Er nad oeddynt yn hyddysg yn ngweithiau athronwyr a beirdd, yr oeddynt wedi dyfal ddarllen oraclau Duw. Er nad oedd eu henwau i'w canfod yn rhestrau yr achyddion, yr oeddynt wedi eu cofnodi yn Llyfr y Bywyd. Er na ddylynid eu camrau gan osgorddluoedd ysplenydd o weision, yr oeddynt dan ofal llengau o angylion gwasanaethgar. Tai wedi eu hadeiladu nid a dwylaw oedd eu palasau; coronau o ogoniant na ddiflanant yn dragywydd oedd eu meitrau. Ar y cyfoethog a'r hyawdl, ar bendefigion ac offeiriaid, edrychent i lawr gyda dirmyg, canys cyfrifent eu hunain yn gyfoethog mewn trysor mwy gwerthfawr, yn hywadl mewn iaith fwy aruchel, yn bendefigion drwy hawlfraint fwy henafol, ac yn offeiriaid drwy arddodiad llaw fwy galluog. Yr oedd y distadlaf o honynt yn fôd, i ffawd yr hwn y perthynai pwysigrwydd cyfrin ac ofnadwy, ar weithred leiaf yr hwn yr edrychai yspryd- ion y goleuni a'r tywyllwch gyda dyddordeb pryderus, a'r hwn a arfaethasid cyn creu y nef a'r ddaear i fwynhau dedwyddwch parhaol ar ol i'r nef a'r ddaear ddiflanu. Yr oedd dygwyddiadau a briodolid gan wleidyddwyr byr eu golwg i achosion daearol wedi eu hordeinio er ei fwyn ef. Erddo ef yr oedd ymherodraethau wedi codi, ac wedi blodeuo, ac wedi dihoeni. Erddo ef yr oedd yr Hollalluog wedi cyhoeddi ei ewyllys drwy ysgrifell yr Efengylydd a thelyn y proffwyd. Nid gan achubydd cyffredin nac o afael gelyn distadl y cipiasid ef. Nid â chwys ing diurddas nac â gwaed daearol aberth y pryniasid ef. Erddo ef y tywyllwyd yr haul, y rhwygwyd y creigiau, y cyfodwyd y meirw, ac y dychlamodd yr holl fydysawd mewn arswyd anaele.—*Macaulay.*

Y CADNAW.

Hwn a'i branc a â i'n bro—yn y nos,
Gan ein hyf yspeilio;
Yn mhobman ei amcan o
Yw lladd hyd y gall lwyddo.

Taer ar ei ymweliad hwyrol—ydyw
Yr adyn lladratol,
Rhag newyn y madyn mudol
Ryw bryfyn a fyn yn ei fol.

Penaf rôg, er bod yn ddyogel,—llecha
Mewn lloches dra dirgel,
Can's gwnawn, pan cawn o'r cenel
Gŵn nwyfus, ei hwylus hel.

Capcoch, Llanybyther. D. O. Jenkins.

NODIADAU GWLEIDYDDOL.

Gellir galw'r oes hon yn oes y dirprwyaethau ; a'r Llywodraeth bresenol yn Llywodraeth drwy ddirprwyaeth. Os gwneir rhyw achwyniad yn y Senedd mewn cyssylltiad â rhyw fater, appwyntir dirprwyaeth ar unwaith i chwilio i fewn iddo, ac ar ol y gorphena y gyfryw ei llafur, gwnant adroddiad i'r Senedd, ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, ni chlywir nemawr o son am dano mwy. Nid yw hyn ond ffordd effeithiol i gael gwared o'r achwyniadau a ddygir i'w sylw, ac ar yr un pryd i gadw'r wlad mewn hwyl. Nid oes llawer o ddaioni i ni i'w ddysgwyl oddiwrthynt, gallwn deimlo yn sicr.

Y mae un ddirprwyaeth wedi bod yn eistedd yn ystod y mis diweddaf yn Nghymru mewn cyssylltiad â phwnc Cau y Tafarndai ar y Sabboth. Dygwyd y ddirprwyaeth hon i fodolaeth trwy i newyddiadur Toriaidd gyhoeddi cyfres o erthyglau i geisio profi fod y gyfraith hon wedi methu yn ei hamcan, ac fod meddwdod yn llawer mwy cyffredin ar ol pasiad y gyfraith hon na chyn hyny. A dygodd wmbredd o ystadegau i geisio profi'r haeriad. Ond pan o flaen y ddirprwyaeth y dydd o'r blaen, methodd brofi fod ganddo sail i hanner yr hyn a ysgrifenodd yn ei erthyglau. O'r dechreu i'r diwedd, y mae dynion cyfrifol wedi dwyn yn mlaen dystiolaethau o'r natur fwyaf cadarn dros lesoldeb y gyfraith yn gyffredinol, er gwaethaf yr anmherffeithderau sydd yn perthyn iddi.

Er nad ydys yn teimlo yn ffyddiog iawn yn y dirprwyaethau hyn, etto, y mae yn bwysig i ni fel cenedl fod ar ddihun, os ydym am i'r gyfraith hon gael aros ar ddeddf-lyfrau ein gwlad, neu ynte gallwn deimlo yn sicr, os caiff y Toriaid yr esgus lleiaf dros ei dyddimu, y byddant yn sicr o gymmeryd gafael ar y cyfleusdra i wneyd hyny. Y peth pwysig i'w osod o flaen y dirprwywyr yw dangos fod y gyfraith wedi achosi diwygiad mawr yn sefyllfa foesol y wlad, fod dynion yn fwy sobr o'i herwydd, ac yn fwy na hyny, fod y mwyafrif mawr o'r boblogaeth yn dymuno am ei pharhad. Mewn cyssylltiad â mater o'r fath hwn, dylasai y mwyafrif gael ei ffordd. Ac nis gellid gwneyd dim yn well na cheisio cael barn y wlad ar y mater, yr hon sydd, yn ol pob arwyddion, yn hollol dros barhad y gyfraith hon. Ond os y

gweithir yn mhob man mor egniol ag y mae'r lleoedd yr ymwelwyd â hwynt eisoes gan y ddirprwyaeth wedi gwneyd, nid oes eisieu ofni beth fydd y canlyniad.

Yr ydym ni, fel cenedl, wedi arfer achwyn ar ymddygiad Mr. Gladstone mewn cyssylltiad â phwnc y Dadgyssylltiad yn Nghymru. Ond bellach, y mae pob achos i achwyn wedi cael ei dynu ymaith. Yn ystod ei daith yn Neheubarth Lloegr, ychydig ddyddiau yn ol, gwnaeth y datganiad mwyaf eglur o'i barodrwydd o hyn allan i roi ei gefnogaeth fwyaf trylwyr i'r pwnc hwn. A gallwn deimlo yn sicr, os unwaith y gesyd yr hen wr ei law wrth yr aradr, na wnaiff laesu ei afael nes cyrhaedd buddugoliaeth. Ac ymddengys fod blaenoriaid y Blaid Ryddfrydig wedi sicrhau y bydd y Llywodraeth Ryddfrydig nesaf yn ymgymmeryd â'r pwnc hwn. Gobeithio y gwnant gyflawnu eu haddewid. Y mae Cymru wedi bod yn ffyddlon i'r achos Rhyddfrydig ar bob achlysur, ac y mae yn bryd iddi, bellach, gael rhyw gydnabyddiaeth am ei ffyddlondeb.

BETH A FYDDWN?

'Allwch chwi byth siarad gormod am gariad Duw. Mae yn well nag y mae cerddi'r beirdd wedi ei osod allan. Mae yn well nag y mae saint yn marw wedi dyfalu am dano. Mae yn well na dim ag y mae yn bossibl i feddyliau dyn amgyffred. Mae yn un a "ddichon wneuthur yn dra rhagorol y tu hwnt i bobpeth yr ydym ni yn ei ddymuno neu yn ei feddwl." Pan y cawn ei weled megys ag y mae yn y byd a ddaw fe fydd y sylwedd yn anfeidrol uwch nac un amgyffred a fyddwn ni wedi ei ffurfio. Beth a ddwg y bywyd arall, wn I ddim, dim ond y ca I ddihuno ar ddelw Duw, a'i weled megys ag y mae. Pe b'ai plentyn wedi cael ei eni, a phe b'ai wedi treulio ei fywyd yn ogof Mammoth, mor anmhossibl fyddai iddo amgyffred y byd uwch ei ben. Gallai ei rieni, o bossibl, ddweyd wrtho am ei fywyd, ei oleuni a'i brydferthwch, a'i acenion o orfoledd: gallent bentyru'r tywod yn grugiau i osod allan ei fryniau a'i fynyddau, a cheisio dangos iddo, trwy gyfeirio at y piconwy oedd yn hongian oddiar nenfwd yr hen ogof, sut oedd y glaswellt, y coedydd, a'r blodau yn tyfu allan o'r ddaear, nes o'r diwedd yr oedd y plentyn, ar ol hir ddyfalu, yn meddwl ei fod wedi cael syniad gwirioneddol am y wlad anadnabyddus. Ond pan y daeth i'r lan, ar ryw foreu tesog yn mis Mai, pan oedd miloedd o adar soniarus yn canu yn y coedydd, a'r nefoedd yn ddysglaer, yn las ac yn llawn tes, pan chwythai yr awel yn dyner rhwng y dail ag oeddynt yn dechreu ymagor ar ymddynesiad y Gwanwyn, a phan oedd y wlad yn ymddawnsio gan fywyd ac arddunedd, gyda'r fath orfoledd yr edrychai y plentyn hwn oddiamgylch, a gweled mor wael oedd ei holl ddyfalu, a'r holl esponio a fu o fewn i'r ogof am y pethau oeddent yn byw ac yn tyfu oddiallan: a sut y synai ei fod yn teimlo mor hiraethus, wrth adael dystawrwydd a thywyllwch digysur ei hen gartref! Felly, gyfeillion, pan yr awn ni allan o'r ogof hon—y ddaear, i'r wlad hono

lle mae haf tragwyddol yn teyrnasu, fe fyddwn yn synu ein bod ni wedi ymlynu mor serchus wrth y bywyd tywyll a diffrwyth hwn.

Yr ydych yn adeiladu eich syniad o Dduw oddiwrth y teulu, oddiwrth y personau goreu ydych yn adnabod, ac oddiwrth y profiadau uwchaf ydych wedi gael. Yr ydych yn casglu ar y ddaear yr holl amgyffredion ag ydynt yn gwneyd i chwi fod yn ddewr, yn odidog a gogoneddus, a swm y cyfan yma yr ydych yn alw yn Dduw. Ond mor wahanol yw yr *idea* sydd genych am dano 'nawr i'r hyn fydd gyda chwi pan y gwelwch chwi ef megys ag y mae.

A wyddoch chwi y fath bwys sydd yn y geiriau hyn, "Pan y gwelwn ni ef megys ag y mae"? Y pethau ydynt wedi myned heibio, a ânt yn welw, a byddant farw. Byddant fel goleu pabwyryn ar y goreu. Ond gogoniant, mawredd, cyfoeth a melusder y galon Ddwyfol a leinw bob enaid sydd yn gweled Duw megys ag y mae. Fe dyr gorfoledd o bob calon, ac adseinia'r nefoedd gan gân y gwaredigion.

Pan y cauwyd Kane i fyny ar draethau y pegwn Gogleddol, aeth dau Anaf heibio heb iddo weled cymmaint a choeden. Gwelodd ychydig flodau dan gornel un o'r mynyddoedd iâ, a gwelodd rhai adar o'r Dehau, y rhai oedd yn ei adgofio am yr Haf oedd yno: ond yr oedd ei brofiad ef gerllaw y pegwn. Ond pan y darfu iddo godi ei angor, a throi ei wyneb tua'r Dehau: a phan gyrhaeddodd rhai o'r preswylfeydd ar dueddau Greenland, yr oedd gwahaniaeth dirfawr yn nhymheredd yr hinsawdd. Pan gyfarfu a'r llongau oeddynt wedi cael eu danfon allan i chwilio am dano, a phan y cychwynodd a'i wyneb tua'r De, yr oedd y gwahaniaeth yn fwy fyth. Yn raddol, fel yr elai yn mlaen, deuai yr awel yn fwy gwresog, a'r gwyntoedd yn fwy balmaidd. Fwy-fwy fel y dynesai at y cylch tymherus delai pobpeth yn deg ac yn hyfryd dros ben. Ac o'r diwedd, pan y daeth i le y gallai arogli tir, mor fawr oedd y cyfnewidiad. Y fath newid yw i ddyfod o ganol iâ ac eira tragwyddol y pegwn Gogleddol i wlad lle mae Haf a phob hyfrydwch yn bodoli. Ond pan ar ddiwedd y daith bron yr ymagorodd porthladd New York o flaen ei olwg—a phan y daeth y wlad brydferth, a meddyliau ac adgofion am gyfeillion anwyl yn chwareu oddiamgylch iddo, pwy all ddweyd beth oedd ei deimladau?

A phan dros fôr ystormus y bywyd hwn, a'r profiadau a'r golygfeydd Gauafol hyn, mae yr enaid yn myn'd gan nofio trwy hinsoddau twymach a mwy dysglaer, i fyny i wlad o haf bythol, ac o'r diwedd yn myned i fewn i borthladd Duw, ac yn cael derbyniad llawen yno, pwy all ddweyd beth fydd ei deimladau? Pryd hwnw, pan fydd y sawl oedd yn ei adnabod yma yn ei groesawu, pan fydd angylion yn ei lawen dderbyn, a phan mae'n gweled Duw ei Hunan megys ag y mae, Duw sydd yn llanw'r nefoedd a'i bresenoldeb, a'i fawredd, a'i ogoniant, fe fydd profiad y cyfryw yn un na ddaeth i galon dyn erioed i'w ddychymygu.

Tua'r wlad hono yr ydym ni oll yn myned, a pha wahaniaeth, os ydym yn dyoddef yma? Be' wahaniaeth os oes gofid ac ing yn ein calonau yma? Beth os ydym yn cael ein rhan o siomedigaethau? Beth os yw rhwymau tyner yn cael eu tori? Beth os yw cyfeillion

yn cael eu gwahanu? Beth os yw rhieni a phlant yn cael eu cymmeryd y naill oddiwrth y naill?

Y gweithiwr tlawd, nid oedd ganddo gyfaill yn y byd ond ei blentyn bach a'i gi. Y ferch ag oedd yn ei roesawu bob amser pan y dychwelai oddiwrth ei waith a fu farw, a lladdwyd ei gi; a melldithiodd Dduw, oblegyd nid oedd bywyd yn ymddangos iddo mwyach yn werth ei fyw. Tydi, yr annuw, sydd yn sefyll uwchben bedd cariad, paid beiddio dweyd fod cariad wedi diffodd. 'Dyw cariad byth yn diffodd —byth. Mae Duw wedi cymmeryd dy blentyn, ac y mae yn dysgwyl am danat i'w gymmeryd ato yn ei ffurf fwy ogoneddus.

Gyfeillion, os yw bywyd yn ymddangos yn unig i chwi, yr ydych yn croesi anialwch yr ochr draw i'r hwn y mae gerddi a bendithion anmhrisiadwy, ac mae'r golygfeydd trwy y rhai yr ydych yn gorfod croesi yma yn sicr o'i gwneyd hi yn fwy bendigedig pan gyrhaeddoch yno. Byddwch felly yn amyneddgar. Na felldithiwch Dduw fel gwraig annyddanus Job gynt. Na ddywedwch fod y wybr yn ddu a chymmylog. Yr hwn mae Duw yn ei garu y mae yn ei geryddu, ac y mae yn fflangellu pob mab a dderbynio.

Bydded i chwi, ynte, ddwyn eich beichiau yn amyneddgar, ac ymddaliwch dan eich treialon a'ch gofidiau. Mae Duw yn well nag mae eich calon wedi bortreadu erioed. Mae yn dad a sych ymaith bob deigr o lygaid ei blant yn y byd presenol. Ymddiriedwch ynddo. Llanwch eich amgyffred yn llawn o wynfydedigrwydd Duw sydd yn gyfoethog mewn daioni, mewn trugaredd, a thosturi, ac yna, ewch yn mlaen ar ffordd eich bywyd, a dygwch heb rwgnach y pethau sydd yn eich blino 'nawr.

AT EIN HYSGOLION SUL YN SIR ABERTEIFI.

Y mae'r gwaith ar gyfer arholiad y flwyddyn nesaf fel y canlyn:— 1. Yr Hen Destament: Hanes Joseph. 2. Y Testament Newydd: yr Iesu a'i gyfeillion newydd, Ioan I. 35—37; y briodas yn Cana Galilea, Ioan, II. 1—11; yr Iesu ar wyl y Pasc yn Jerusalem, Ioan II. 12—25; yr Iesu a Nicodemus, Ioan III. 1—21; y wraig o Samaria, Ioan III. 20—IV. 43; taith drwy Galilea, Matt. IV. 12—25; yn Nazareth, Luc IV. 14—30; galwad y deuddeg, Matt. X.; Marc III. 13—21; Luc VI. 13—16; y bregeth ar y mynydd, Matt. V. VII.; Luc VI. 17—49; yr Iesu a'r Sabboth, Matt. XII. 1—14; Marc II. 23; III. 5; Luc VI. 1—11. 3. *Banau Ffydd*: y drydedd a'r bedwaredd bennod.

Arholir yn y gwahanol bynciau fel y canlyn:—1. Yn yr Hen Destament gan y Parch. R. C. Jones. 2. Yn y Testament Newydd gan y Parch. T. Thomas. 3. Yn *Manau Ffydd* gan y Parch. W. James, B.A. Gobeithio y dechreuir ar y gwaith yn gynnar gan ein gwahanol ysgolion, fel y gellir gwneyd yr arholiad nesaf yn llwyddiannus. Gall yr athrawon wneyd llawer o help pe yr ymgymmerent a gwneyd y gwaith yn y gwahanol *glasses* yn yr ysgol ar y Sul. Cynnelir yr arholiad yn agos i'r un amser ag eleni, sef dydd Gwener y Groglith.

Manion a Hanesion.

Y dduwinyddiaeth fwyaf iachus yw yr on sy'n swnio oreu yn y cymmeriad.

Llanbedr.—Mai 22, cynnaliodd Ysgol- on Sul Caeronen, Brondeifi, Alltyplacca, Chapelygroes, eu cymmanfa yn Mron- eifi. Aeth y gwahanol ysgolion drwy eu waith mewn modd tra chanmoladwy, ond ofier ei bod yn bossibl gwneyd yn well.

Cymmanfa Gerddorol Undodiaid Dos- arth Aberdar.—Cynnaliwyd y gym- manfa hon dydd Iau, Mehefin 6, yn Hen Dy Cwrdd, Trecynon, am ddau a chwech. Dechreuwyd y cyfarfod dau gan y Parch: N. Williams, Merthyr, yn Saesneg, yn ddifrifol iawn. Yna, cafwyd anerchiad rhagorol gan y llywydd am y dydd, sef R. Bedlington, Gadlys House, ar ganu cyn- ulleidfaol, a'r daioni mawr a ddeillia o fod cynnulleidfaoedd yn ymuno â'u gilydd i ganu mawl i Dduw ac i berffeithio can- iadaeth y cyssegr, yr hwn bwnc sydd yn cael cryn sylw y dyddiau hyn gan yr holl enwadau crefyddol. Yna, galwodd ar yr arweinydd, L. N. Williams (Ap Carw), Ysw., Aberdar. Cyn dechreu rhoddodd ychydig sylwadau addysgiadol a phwrpasol i'r cantorion, a chanwyd yn ystod y cyfar- fod y tonau canlynol:—Nashville (I. Gwyllt), Ellacombe (Bristol Tune Book), Demster Newydd, Huddersfield (Ste- phens a Jones), Jenkin (W. J. Davies), Trecynon, Story of Old (American), Col- chester (I. Gwyllt), Bugail Da (American), Salm-dôn 30 (I. Gwyllt), ac anthem "Yr Arglwydd yw fy Mugail" (T. Davies). Cafwyd anerchiadau rhwng y tonau gan yr ysgrifenydd, y Parch. J. Hathren Davies, Cefn, a Mr. Davies, Gellionen. Sylwadau da rhagorol oeddynt, a chafwyd canu da iawn ac ystyried nad oeddynt wedi cael un *rehearsal* gyda'u gilydd o'r blaen. Dyben- wyd trwy weddi gan y Parch. R. J. Jones, y gweinidog. Dechreuwyd cyfarfod chwech o'r gloch gan y Parch. E.W. Lloyd, Cwm- bach, yn Gymraeg, ac wedi anerchiad etto gan yr un cadeirydd, galwodd ar yr ar- weinydd at ei waith, a chanwyd yn ystod y cyfarfod y tonau canlynol:—Rhyddid (I. Gwyllt), Hendre (Stephen a Jones), Hyfrydol (Stephen a Jones), Arabia, Haleliwia, Pererinion, anthem, "Round about the starry Throne," a "Yr Ar- glwydd yw fy Mugail" (T. Davies). Caf- wyd anerchiadau rhagorol gan y Parch. J. Ffoulkes (Presbyteriad) a J. J. George (Undodwr), Aberdar, y cyntaf yn Gymraeg a'r olaf yn Saesneg. Cafwyd cyfarfodydd rhagorol—y canu yn hwylus ac effeithiol; yn wir, ac ystyried mai dyma yr ail flwyddyn o'i bodolaeth, yr oedd yn rha- gorol. Yn mlaen yr elont nes cyrhaedd perffeithrwydd. Rhoddwyd y pennillion allan gan y Parch. R. J. Jones, a chyfeil- iwyd yn ol ei ddull rhagorol gan y talentog R. Howells, Ysw., Maesgwyn. Dybenwyd trwy weddi gan y Parch. J. J. George. —*Cludydd* yn y *Gweithiwr Cymreig*.

Dowlais.—Nos Lun, Mehefin 10, cyn- naliwyd *soiree* yn yr ysgoldy mewn cys- sylltiad ag ymadawiad y Parch. W. J. Davies, yr hwn sydd wedi ei bennodi yn weinidog eglwysi Llandyssul, Llwynrhyd- owen, a Bwlchyfadfa. Cymmerwyd y gadair gan Mr. Evans, Caeharris, yr hwn a draddododdd anerchiad pwrpasol. Dy- wedodd fod yn flin ganddo golli Mr. Davies, ond colled Dowlais fyddai ennill Sir Aber- teifi. Rhoddodd grynodeb o lafur Mr. Davies yn ystod ei saith mlynedd yn Now- lais, ac yn enwedig at ei lafur yn nglyn â chasglu arian tuag at ddiddyledu y capel, ar yr hwn nid oes yn awr geiniog o ddyled. Siaradwyd hefyd i'r un perwyl gan y Mri. J. Lewis, E. Lewis, ac S. George (ysgrif- enydd pwyllgor y dysteb). Mewn iaith hapus, cyflwynodd Mr. John Jones, y diacon hynaf, dysteb yn y ffurf o fwrdd ysgrifenu hardd, yn nghyd â chawg siwgr o arian cywreinwaith, i'r gweinidog ar ei ymadaw- iad. Mewn ymadroddion yn dangos teim- lad dwys, diolchodd Mr. Davies yn gynhes am y rhodd ac am y syniadau caredig a draethasid gan y cyfeillion. Yn ystod yr hwyr cafwyd adroddiadau a thonau gan aelodau y gynnulleidfa. Mae yn ddrwg genym am absenoldeb Mr.H. Lloyd,trysor- ydd y dysteb,o herwydd rhesymau anorfod.

PRIODAS.

Dydd Iau, yn Pantdefaid, gan y Parch. T.T. yn mhresenoldeb y Cofrestrydd, Evan Jones, Esgerddedwydd, a Hannah Thomas, Pennant, yn mhlwyf Llandyssul.

Mae Evan Jones yr Esger
Yn awr yn berchen gwraig,
Cyn denu merch y *weaver*
Bu'n dipyn o 'sgolhaig;
Ymieuo'n briodasol
Sydd weithred ddigon *slic*,
Ond cario'r iau'n heddychol
Sy'n llawer mwy o *dric*.

Marwgofion.

Dydd Sadwrn, Ebrill 27, yn 86 oed, Gwenllian Edwards, Pentre, Rhydowen, a chladdwyd hi y dydd Llun canlynol yn mynwent Pantdefaid. Pregethodd y Parch. T.T. ar yr achlysur. Egwan ydoedd o ran ei chorff er pan y mae'r ysgrifenydd yn cofio, ac er ys blynyddoedd lawer nid oedd yn abl i fyned rhyw lawer allan o'i thŷ. Un ddiniwed iawn ydoedd Gwenllian, ac un o Undodiaid boreuol Pantdefaid ydoedd pan oedd yr hen ffyddloniaid hyny yn gorfod dyoddef pwys a gwres y dydd. Gadawodd un ferch ar ei hol yr hon hefyd sy'n anwylo crefydd ei mam, ac fel ei mam, yr ydys yn gobeithio y gwna bara yn ffyddlon hyd y diwedd.

Dydd Llun, Mai 6, John Davies, Penrhiwfach, Llanfihangel-ar-Arth, John y Porth fel ei gelwid gan gannoedd, yn 51 oed. Claddwyd ef yn mynwent blwyfol Llandyssul y dydd Iau canlynol. Pregethodd y Parch. T.T. yn y tŷ annedd.

Dydd Sul, Mai 12, Sarah, anwyl briod Edward Evans, Pantcelyn, ger Capelygroes, yn 74 oed. Claddwyd hi yn mynwent y capel uchod y dydd Gwener canlynol. Pregethodd y Parch. T.T. ar yr achlysur. Yr oedd ei hiechyd wedi anmharu er ys llawer o flynyddoedd, ac yn ddiweddar yr oedd ei phoen wedi cynyddu gymmaint nes yr oedd ei phriod a'i phlant braidd yn dysgwyl dydd ei hymddattodiad. Daeth y dydd hwnw o'r diwedd, ond nid fel lleidr yn y nos.

Dydd Gwener, Mai 17, Mary, unig blentyn Anne Rees, Clifton Terrace, Llandyssul, yn 23 oed. Bu farw ei thad, John Rees, ddeng mlynedd yn ol. Ddydd ei hangladd, sef y dydd Mercher canlynol, pregethodd y Parch. T. P. Phillips yn y ty yn ddoniol a chyffrous iawn, ac yna hebryngwyd hi i'w bedd yn nghladdfa'r teulu yn Pantdefaid. Gweinyddodd y Parch. T.T. yn y capel ac ar lan y bedd. Wedi gorphen y gladdeddigaeth, gorchuddiwyd ei bedd gan ddirif bleth-dyrch o flodau amryliw gan ei chyfeillesau ieuainc gwlychedig gan ddagrau galar a hiraeth. Gwan ei chyfansoddiad oedd yr eneth ieuanc hon erioed, ac er ys rhai blynyddau gwelid arni arwyddion y ddarfodedigaeth, ond trwy ofal a thynerwch y mwyaf caredig o famau a medrusrwydd y meddygon goreu, estynwyd ei bywyd, mewn ystyr, hyd yr awr bellaf.

Mai 22, Edward Handel, mab bychan William a Hannah Williams, Victoria Terrace, Llanbedr, yn 4 mis oed. Y Sadwrn canlynol, hebryngwyd corff y bychan i fynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

Mai 28, Mary Davies, merch Richard a Mary Davies, Capelstwr, Pencarreg, yn 16 mlwydd oed. Bu ein chwaer ymadawedig yn wael am gryn amser, ond yr oedd ei rhieni ac ereill yn parhau i obeithio y byddai iddi yn raddol gael ei hadferu. Ond y diwedd fu, i'r gobeithion anwyl gael eu dyrysu, ac i'r babell ddaearol, yr hon ni fu erioed yn rhyw gref iawn, gael ei thynu i lawr. Yr oedd yna rywbeth yn y chwaer ieuanc hon ag oedd yn hynod siriol a hawddgar, ac yr oedd o ganlyniad yn cael ei hoffi yn fawr gan ei chydnabod. Yr oedd yna rywbeth ynddi ag oedd yn gwneyd pawb oddiamgylch iddi yn ddedwydd, ac yn goron ar yr oll yr oedd ei chymmeriad yn bur. Ar ddydd ei hangladd daeth torf fawr iawn o gyfeillion a pherthynasau i ddangos eu cydymdeimlad â'r galarwyr, ac i dalu i'r ymadawedig ieuanc y gymmwynas olaf. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn mynwent Eglwys Pencarreg. Yn y ty gwasanaethwyd gan R. C. Jones, Llanbedr. Bydded i'r galarwyr trallodedig gael modd i alaru yn gymmedrol ac yn obeithiol.

Mehefin 14, yn 82 oed, ein hen gyfaill gonest a didwyll, Llewelyn David, Cwmbach, Aberdar, a brawd Mr. Daniel David, Abernantygroes. Bu yn aelod ffyddlon o'r Eglwys Undodaidd yn y Cwmbach am lawer o flynyddau. Anfynych iawn yr absenolai efe ei hunan o'r addoliad cyhoeddus naill ai ar y Sul neu y cwrdd gweddi nos Iau hyd y gallai. Yn yr ystyr hwn yr oedd yn wir deilwng o efelychiad rhai o'i gydaelodau o'r gynnulleidfa hon, yn gystal â llawer o gynnulleidfaoedd ereill. Oloesodd am flynyddau ei briod ac amrai o'i blant, ac nid oes ond ei un mab, Thomas, yn awr ar dir y byw. Gweinyddwyd i dorf luosog yn ei angladd dydd Mawrth, y 18fed, gan ei hen weinidog, E. W. L.

Dydd Sul, Mehefin 16, yn 74 oed, Evan Evans, Ty-Rhys, Castellhywel, Llandyssul. Claddwyd ef y dydd Mercher canlynol yn nghladdfa newydd y Llwyn. Gweinyddodd y Parch. T.T. ar yr achlysur.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

Barn y Cyhoedd am George's Pills.

DYFYNIADAU O LYTHYRAU.

"Gwerthfawrocach ynt i mi nâ'r aur coeth,—arbedasant fy mywyd."

"Yr oedd pob meddyg yn ystyried fy iechyd yn ddiobaith, felly Syr, ar ol i bawb fethu, chwi a'm gwnaethoch yn holl iach."

"Clywais ganmoliaeth uchel i'ch Peleni, ond fy marn ddiduedd yw, na fynegwyd 'mo'r hanner."

"Cyn cymmeryd eich Pills nis gallwn gerdded gan y poen yn fy ymysgaroedd, ond yn awr, er fy mod yn 67 mlwydd oed, yr wyf yn teimlo fel pe na bawn ond 30."

"Yr ydwyf yn canmol eich Peleni wrth fy holl gwsmeriaid, oblegyd y maent yn wir dda."

"Ni welwyd meddyginiaeth fel yr eiddoch chwi erioed o'r blaen yn ein gwlad."

"Cynghorem bawb—o herwydd y ffug-beleni sydd yn y farchnad—i fod ar eu gwyliadwraeth pan yn prynu GEORGE'S PILLS."

"Yr oeddwn yn methu sefyll gan bendro, ac yr oedd *swashes* o ddwfr sur yn dyfod i fy ngenau. Ni chymmerais ond un blychaid o'ch Peleni cyn fy llwyr iachau."

"Yr oedd trymder anarferol yn fy nal ar ol bwyta, a chawn anesmwythder y nos gan freuddwydion brawychus; ac mae fy mhoenau erbyn hyn yn *things of the past*."

"Er i mi wneyd aml brofion o alluoedd meddygon, yr oedd y cwbl yn ofer hyd i mi wneyd prawf o'ch Peleni chwi."

"Yr ydwyf yn dymuno gwneyd y gwellhad hwn yn ^vspys er calondid i chwi, er lles i ereill, ac er clod i'r Goruchaf."

"Y mae llawer o siarad yma (California) am eich Peleni; mawr y lles y maent yn ei wneyd."

"Edrychwn ar eich Peleni fel rhai o'r pethau hyny ag ydynt yn angenrheidiol i gyssur a dedwyddwch teuluaidd."

"Nis gwn am un Feddyginiaeth yn Nghymru mewn cymmaint o fri, nac ychwaith wedi gwneyd cymmaint o ddaioni."

"Edrychir arnoch gan filoedd fel cymmwynaswr i'ch cenedl."

"Mae'n Feddyginiaeth rad, ryfeddol ei pharhad, effeithiol, syml, hawdd ei chael trwy holl ororau'n gwlad."

"Y mae yr Americaniaid yn meddwl y byd am eich meddyginiaeth, er gwaethaf eu rhagfarn yn erbyn pob peth Cymreig."

"After taking a few doses he passed no less than forty gall-stones."

"When I show them the *scores of stones* I have passed by taking your Pills, they are *struck dumb with wonder*. Seeing is believing."

"Your Pills a tonish the people here by their miraculous effects."

"Dyma un o'r bendithion mwyaf i ni, y dosparth gweithiol, a allasai Rhagluniaeth ei drefnu."

Ar werth drwy yr holl fyd, mewn blychau 1*s.* 1½*c. a* 2*s.* 9*c. yr un.*

Perchenog :—J. E. GEORGE, M.R.P.S., HIRWAIN.


INTERESTING FACTS FOR INVALIDS.
The experience of twenty years proves that no medicine for the cure of all the Disorders of the BOWELS, LIVER, KIDNEYS, and STOMACH, will bear comparison with GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS.
It is an important fact that these Remedies are patronised and highly recommended by EMINENT MEDICAL MEN, both in this country and America.
Many of the wealthy of the land give their time and money to supplying the afflicted poor in their neighbourhoods with these Pills. This fact speaks volumes in favour of these Pills.
Were all the Testimonials that have been received in favour of these Remedies printed, they would fill a volume of over a THOUSAND PAGES of the ordinary size.
There is not a civilized nation under the sun that has not experienced the HEALING VIRTUES of these Remedies. For many years they have held the FIRST PLACE in the world as a remedy for the above disorders.
It is the opinion of those best able to judge that a discovery of greater importance to suffering humanity than GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS has not been made in this century.
THOUSANDS have been cured by these Pills, and TENS OF THOUSANDS relieved of their pains; and many who have been pronounced hopeless have been THOROUGHLY RESTORED TO HEALTH by their use.
Sold in Boxes, 1/1½ and 2/9 (by Post, 1/3 and 2/10) each, by all respectable Chemists.
IMPORTANT CAUTION.—BEWARE OF SPURIOUS IMITATIONS.